**Alun Davies AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Lifelong Learning and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-L/ARD/0550/17

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddFinance@cynulliad.cymru
SeneddCYPE@cynulliad.cymru

8 Medi 2017

Annwyl Simon a Lynne,

Yn unol â'm hymrwymiad cyn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol ar gyfer Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (y Bil), amgaeaf gopi o asesiad effaith rheoleiddiol (RIA) diwygiedig y Bil.

Dros yr haf, mae proses sicrhau ansawdd gynhwysfawr wedi'i chwblhau, gan gynnwys gwiriadau mewnol ac allanol.

Yn fewnol, canolbwyntiwyd ar gywirdeb y cyfrifiadau gydol y RIA, a hygyrchedd ar gyfer darllenwyr. Nid yw'r adolygiad hwn wedi datgelu unrhyw beth sy'n peri pryder. Mae rhai newidiadau i'r testun wedi'u gwneud er mwyn gwella eglurdeb, gan gynnwys croesgyfeirio ffigurau yn y testun i dablau perthnasol, a chynnwys troednodiadau i nodi'r fformiwla sy'n cael ei defnyddio i wneud cyfrifiad. Nodwyd anghysondeb o £20, sy'n creu cynnydd o £20 yn yr arbedion parhaus a ragwelir.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw wallau wedi'u nodi yn y cyfrifiadau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae canlyniad yr adolygiad mewnol yn gadarnhaol ac rwy'n gobeithio y bydd yn hwb i hyder yng nghywirdeb a dibynadwyedd yr RIA.

Hefyd, comisiynwyd adolygiad allanol gan gymheiriaid o'r RIA, gan ganolbwyntio ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd. Cwblhawyd yr adolygiad gan Dr Miguel Garcia-Sanchez, economegydd sydd ag arbenigedd sylweddol mewn dadansoddi cost a budd.

Aeth Dr Garcia-Sanchez ati i asesu'r dulliau a'r rhagdybiaethau technegol a ddefnyddiwyd yn yr RIA, gan ddadansoddi cadernid y data a ddefnyddiwyd. Craffwyd yn fanwl iawn ar sampl o ffigurau ac ar ddull cyffredinol yr RIA. Roedd y gwaith hwn yn ategu ac yn adeiladu ar yr adolygiad mewnol.

Amgaeaf gopi o'r adroddiad a dderbyniais gan Dr Garcia-Sanchez. Mae rhai o'i argymhellion yn cyfeirio at y Bil yn benodol ac mae eraill yn fwy cyffredinol. Mae rhai o'r argymhellion yn ymwneud â llunio RIAs yn fwy cyffredinol, ac maent yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu model sy'n fwy seiliedig ar economegwyr wrth lunio RIAs.

Gall yr argymhellion ehangach yn ymwneud â'r model sydd wedi'i ddefnyddio i lunio RIAs fod o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor Cyllid yng nghyd-destun ei ymchwiliad presennol i amcangyfrifon ariannol y ddeddfwriaeth.

O'r chwe argymhelliad a wnaed gan Dr Garcia-Sanchez, nid yw Llywodraeth Cymru yn derbyn un ohonynt. Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â chyfrifo amcangyfrifon arian parod a gwerthoedd presennol net. Yn ein barn ni, byddai newid ein dull gweithredu yn y modd a awgrymir yn mynd yn groes i'r canllawiau a nodwyd yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi.

Rydym wedi diwygio'r RIA yn unol â'r ddau argymhelliad penodol a wnaed gan Dr Garcia-Sanchez – mae'r RIA diwygiedig yn awr yn cynnwys rhestr glir o gostau heb eu meintioli ac yn egluro pam y mae'n cwmpasu cyfnod o bedair blynedd.

Mae'r argymhellion eraill yn ymwneud â llunio RIAs yn fwy cyffredinol, a gall y Pwyllgor Cyllid ystyried yr argymhellion hyn yng nghyd-destun ei ymchwiliad. Byddwn yn sicrhau bod yr argymhellion hyn yn cael eu hystyried yn llawn wrth lunio RIAs a fydd yn ategu'r is-ddeddfwriaeth a'r Cod ADY sy'n cael ei greu o dan y Bil hwn. Fodd bynnag, o ystyried y cam y mae'r Bil wedi'i gyrraedd a lefel yr adnoddau sydd eu hangen i roi'r argymhellion hyn ar waith mewn ffordd ôl-weithredol, nid wyf yn bwriadu eu cynnwys yn y RIA hwn.

Yn ogystal â'r broses sicrhau ansawdd mewnol ac allanol, mae fy swyddogion wedi parhau i weithio'n agos gyda SNAP Cymru er mwyn deall eu pryderon. Dechreuodd y cysylltiad diweddaraf yn dilyn sesiynau tystiolaeth cam 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. O ganlyniad i'r gwaith hwn, nid oes unrhyw newidiadau eraill wedi'u gwneud i'r costau a amlinellwyd yn y RIA ers fy llythyr ym mis Mai, ond mae newidiadau i naratif y RIA wedi'u gwneud.

Rwyf wedi cael sicrwydd gan fy swyddogion bod SNAP Cymru yn fodlon â'r diwygiadau i'r RIA ac rwy'n ddiolchgar i Denise Inger a Caroline Rawson am eu cyfraniad, sydd wedi'n galluogi i gyrraedd y sefyllfa hon y gall pawb gytuno arni.

Ym mis Mai, ysgrifennais i ddweud mai'r arbedion parhaus disgwyliedig fyddai £3,675,240 dros y pedair blynedd. Yn yr RIA diwygiedig, y ffigur yw £3,675,260 – gwahaniaeth o £20. Mae hyn yn deillio o anghysondeb a nodwyd yn yr adolygiad mewnol.

Hefyd, mae cost gyffredinol y Bil wedi newid. Ym mis Mai dywedais mai £8,279,250 fyddai'r gost ddisgwyliedig dros y cyfnod o bedair blynedd. Yn y RIA diwygiedig, y ffigur yw £7,853,200 – gostyngiad o £426,030. Mae yna ddwy elfen i hyn.

Yn gyntaf, mae addasiad wedi'i wneud i gostau gweithredu Llywodraeth Cymru a amlinellwyd yn yr RIA er mwyn cynnwys costau pontio sydd ond yn berthnasol yn uniongyrchol i'r Bil. Yn ei adroddiad cam 1 ar y Bil, argymhellodd y Pwyllgor Cyllid fod angen mwy o dryloywder yn yr RIA yng nghyswllt y cyllid ychwanegol sydd ar gael at ddibenion y Bil.

Mae'r addasiadau i'r RIA yn rhan o'n hymateb i'r argymhelliad hwn. Y canlyniad yw gostyngiad o £425,930. Mae'r RIA diwygiedig yn ceisio gwahaniaethu'n fwy eglur rhwng cyllid sydd â chysylltiad uniongyrchol â gweithredu'r Bil a gweithgarwch yn ymwneud â'r rhaglen drawsnewid ehangach.

Yn ail, mae addasiad bach o £100 i gostau gweithredu Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru wedi'i wneud hefyd. Nod yr addasiad hwn yw adlewyrchu costau gwirioneddol yn hytrach na chyllid grant Llywodraeth Cymru.

Bydd y pecyn ariannu gwerth £20 miliwn a gyhoeddwyd yn gynharach eleni yn talu am weithredu'r Bil hwn. Byddaf yn ysgrifennu gyda diweddariad am y cyllid gweithredu, ond ei nod yw gwneud llawer mwy na dim ond ariannu'r newid o un system statudol i system arall. Mae'n buddsoddi mewn sgiliau a datblygiad proffesiynol er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflwyno'r ddeddfwriaeth, newid ymarfer ar lawr gwlad a gwella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc.

Ar ôl i'r system newydd gael ei chyflwyno, disgwylir y bydd yn rhatach i'w gweithredu na'r system AAA bresennol. Ategir hyn gan brofiad yr awdurdodau lleol sydd eisoes wedi cyflwyno elfennau allweddol o'r system ADY newydd. Bydd unrhyw arbedion gweinyddol yn cael eu hail-fuddsoddi i gynorthwyo plant a phobl ifanc.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at bob Aelod Cynulliad, yn dilyn fy llythyr dyddiedig 6 Mehefin, cyn y ddadl i benderfynu ar gyllid y Bil a gynhelir fis nesaf.

Yn gywir

**Alun Davies AC**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language